

ATODIAD 9

ASESIAD EFFAITH O SAFBWyNT CYDRADDOLDEB

1. Mae'r gyllideb a amlinellir yma'n ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu cynnydd annigonol yn ein incwm i gwrdd â chwyddiant, ayb, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion roedd wedi'u cymeradwyo eisoes ynghyd â'r pecyn o gynlluniau ychwanegol sy'n Atodiad 3.
2. Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar y cynlluniau arbedion unigol wedi cynnal asesiadau effaith priodol ynghylch y penderfyniadau ariannol ar arbedion a thoriadau gerbron yma. Lle'n briodol, yn Atodiad 3, gwelir sylwadau gyferbyn â'r cynlluniau unigol, neu linc i asesiadau manwl.
3. Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:
 - Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.Wrth asesu, roedd yr adrannau perthnasol wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau eu gallu.
4. Wrth gynllunio ein cyllidebau, ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi casglu data, dadansoddi effaith cynlluniau a monitro'n briodol.
5. Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod arbedion, sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith yr arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r adran berthnasol wedi dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen cynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Dyma fydd y drefn gyda'r arbedion effeithlonrwydd pellach erbyn 2019/20.
6. Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau, disgyblion, a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol, gan gynnwys 'demograffi', yn rhan 3 o'r adroddiad).
7. Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol (£1,786,350) o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol (£3,060,030) yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol, a bod mwyafrif y gweddill (£1,139,640) ohono'n mynd at anghenion arbennig disgyblion ysgolion.

Yn yr adroddiad i'r Cabinet, roedd cyflwyniad am Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gan y Swyddog Polisi a Cydraddoldeb arbenigol, ynghyd a'i sylwadau yn benodol am effaith yr arbedion. Gellid gweld hynny drwy ddilyn y linc isod a dewis Eitem 8, Atodiad 9 - Asesiad Effaith o Safbwynt Cydraddoldeb -

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/mgAi.aspx?ID=13592#mgDocuments&LLL=1>